**ADRODDIAD I'R CABINET**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **24 Ionawr 2023** |
| **Aelod Cabinet** | **Y Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid** |
| **Pwnc** | **Trosolwg Arbedion:**<br>**Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion** |
| **Swyddog Cyswllt** | **Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid** |

---

## 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2022/23 a blynyddoedd blaenorol.

## 2. CYFLWYNIAD / CEFNDIR

2.1 Mae'r adroddiad yma yn adroddiad trosolwg o sefyllfa arbedion y Cyngor ar gyfer 2022/23 a blynyddoedd blaenorol.

2.2 Adroddir ar gynnydd yn erbyn cynlluniau arbedion sydd werth £595,000 yn 2022/23, ynghyd â'r arbedion sydd eto i'w cyflawni o flynyddoedd blaenorol, yn dilyn adolygiad o'r sefyllfa ar ddiwedd Tachwedd 2022.

2.3 Bellach gellir adrodd fod cyfanswm o bron i £33.5 miliwn o arbedion wedi eu gwireddu ers 2015/16, sydd yn 95% o'r £35.4m gofynnol dros y cyfnod.

2.4 Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, sy'n herio perfformiad yr adrannau gan gynnwys cynnydd y cynlluniau arbedion. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan.

## 3. AIL-ASESU ARBEDION

3.1 Mae gan y Cyngor drefniadau cynllunio ariannol sydd eisoes wedi adnabod arbedion effeithlonrwydd sylweddol er mwyn isafu toriadau mewn gwasanaeth i drigolion Gwynedd. Yn Ionawr 2022, adolygwyd y cynlluniau arbedion i asesu pa gynlluniau hanesyddol oedd bellach yn anghyraeddadwy, a lluniwyd rhaglen ddiwygiedig o arbedion ar gyfer 2022/23 yn dilyn cymryd camau i ddileu, llithro ac ail broffilio'r cynlluniau arbedion.

3.2 O ran cynlluniau arbedion 2022/23, penderfynodd y Cabinet ar 10 Chwefror 2022 i symud y proffil cyflawni ar gyfer cynlluniau gwerth £1,290,250 i 2023/24 a blynyddoedd dilynol, cydnabod fod y sefyllfa wedi newid cymaint fel na ellir cyflawni cynlluniau arbedion gwerth £489,750 gan eu dileu o'r gyllideb, gan adael £595,000 o arbedion i'w gwireddu yn 2022/23. Gweler Tabl 1 isod.

**Tabl 1: Arbedion wedi eu dileu neu eu gohirio**

| | Gwreiddiol £ | Gohirio £ | Dileu £ | Balans £ |
|---|---|---|---|---|
| Cynlluniau 2022/23 | 2,375,000 | 1,290,250 | 489,750 | 595,000 |

## 4. CYNLLUNIAU ARBEDION ADRANNOL 2015/16 – 2021/22

4.1 Mae **Atodiad 1** yn crynhoi cyrhaeddiad pob adran yn erbyn y targed arbedion diwygiedig o 2015/16 - 2021/22, **cyfanswm o bron i £35m. Gellir adrodd bod £33.4m, neu 96% o'r cynlluniau yma wedi eu gwireddu**, ond mae risg o ran gwireddu rhai o'r cynlluniau arbedion yn parhau.

4.2 Mae risgiau cyflawni a llithriadau gwerth £64,000 ar gynlluniau 2017/18, £98,800 yn 2018/19, £361,000 yn 2019/20, £623,110 yn 2020/21 a £292,500 yn 2021/22. Cyfanswm o £1,439,410.

4.3 Nid yw'r Adrannau yn rhagweld problem gwireddu 13 cynllun, gwerth cyfanswm o £665k.

4.4 Mae'r 9 cynllun sy'n weddill sef gwerth £775k gyda risgiau i'w cyflawni. 5 cynllun gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant (cyfanswm o £483k), 1 gan Priffyrdd a Bwrdeistrefol (£133k) 1 gan Economi a Chymuned (£45k), 1 gan Tai ac Eiddo (£100k) ac 1 gan Cyfreithiol (£14k). Mae ymateb i'r argyfwng Covid wedi golygu fod rhai elfennau o gynlluniau arbedion wedi llithro.

## 5. CYNLLUNIAU ADRANNOL 2022/23

5.1 Mae **Atodiad 2** yn crynhoi'r sefyllfa o ran gwireddu cynlluniau arbedion 2022/23. Mae'r cyfanswm targed arbedion yn £595k gyda gwerth £133k, sef 22% o gynlluniau eisoes wedi eu gwireddu a £13k pellach sef 2% ar drac i gyflawni'n amserol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

5.2 Bu oediad ar gynllun gwerth £105k *Teledu Cylch Cyfyng* yn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol a chynllun *Datblygu 3 prosiect Tai Gofal Ychwanegol arall yng Ngwynedd* gwerth £100k yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, ond rhagwelir y byddant yn cael eu gwireddu yn 2023/24.

5.3 Rhagwelir risgiau i gyflawni gwerth £245k o gynlluniau. Mae 1 cynllun gan yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol sef *Newid trefniadau gwaith casglu gwastraff i shifftiau a chylchdeithiau llai* (£150k), 1 cynllun *Neuadd Dwyfor* (£70k) gan yr Adran Economi a Chymunedau ac 1 cynllun *Denu incwm ychwanegol drwy Asiantaeth Casglu Mewnol* (£25k) gan yr Adran Gyllid.

## 6. CYNLLUNIAU ADRANNOL 2023/24 YMLAEN

6.1 Yn sgil yr hinsawdd economaidd presennol a'r lefelau chwyddiant uchel, mae'n anorfod y bydd yn rhaid i Awdurdodau Lleol edrych ar arbedion a thoriadau i gynorthwyo y sefyllfa ariannol. Mae cynlluniau arbedion a thoriadau ychwanegol ar gyfer 2023/24 eisoes dan ystyriaeth gan Gyngor Gwynedd ac mi fyddant yn destun adroddiad yn fuan.

6.2 Rhestrir arbedion presennol 2023/24 ymlaen, fesul Adran yn **Atodiad 3**, ond mae'n gynamserol i adrodd ar statws y cynlluniau yma ar hyn o bryd.

## 7. CASGLIAD

7.1 Mae'n anorfod bod gwireddu £33.5m o arbedion (o gyfanswm o £35.4m) ers Ebrill 2015 wedi bod yn heriol.

7.2 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r sefyllfa ddiweddaraf y cynlluniau arbedion ers Ebrill 2015 yn ôl statws gyda gwerth 95% o'r holl gynlluniau wedi eu gwireddu.

**Tabl 2: Crynodeb o statws holl gynlluniau arbedion ers Ebrill 2015**

| **Statws yr Arbediad** | **Porth** | **£m** | **%** |
|---|---|---|---|
| Wedi gwireddu | 1 | 33.5 | 94.6 |
| Ar drac i gyflawni'n llawn ac amserol | 2 | 0.1 | 0.3 |
| Oediad, ond yn symud yn ei flaen | 3 | 0.8 | 2.3 |
| Rhai risgiau i gyflawni - yn llithro neu fethu | 4 | 0.7 | 2.0 |
| Risgiau sylweddol i gyflawni yn llawn neu yn rhannol | 5 | 0.3 | 0.8 |
| **Cyfanswm arbedion** | | **35.4** | |

7.3 Felly, gofynnaf i'r Cabinet nodi'r cyrhaeddiad a amlinellir yn yr adroddiad yma tuag at wireddu'r cynlluniau arbedion. Yn ogystal, nodi bod effaith Covid wedi cyfrannu at lithriad yn y rhaglen arbedion a chefnogi'r adrannau i symud ymlaen efo'r rhaglen arbedion.

**Barn yr Aelod Lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau:**
Atodiad 1 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2015/16 - 2021/22 fesul Adran
Atodiad 2 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2022/23 fesul Adran
Atodiad 3 - Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2023/24 ymlaen fesul Adran